# Uned 32: Rheoli Cynefinoedd Fferm

**Côd yr Uned:** F/600/9620

**FfCC Lefel 3:** BTEC Cenedlaethol

**Gwerth o ran credydau:** 10

**Oriau dysgu dan arweiniad:** 60

## Nod a diben

Nod yr uned hon yw cyflwyno i'r dysgwyr sgiliau a gwybodaeth rheoli cynefinoedd fferm a sut gellir eu defnyddio yn ymarferol. Mae wedi'i dylunio ar gyfer dysgwyr mewn canolfannau sydd am symud ymlaen i'r sector neu i addysg bellach/uwch.

## Cyflwyniad i'r uned

Ers cyflwyno'r Deddfau Cau Tir cafwyd llawer o newidiadau i dirweddau fferm. Mae hyn yn ganlyniad uniongyrchol i golli cynefinoedd a'r dirywiad yn y rhywogaethau sy'n gysylltiedig â hwy.

Yn ystod y blynyddoedd blaenorol mae polisïau amaeth-amgylcheddol newydd wedi cael eu cyflwyno i wrthdroi'r colli cynefinoedd a'r dirywiad yn y rhywogaethau sy'n gysylltiedig â hwy. Mae'r uned hon wedi'i bwriadu ar gyfer y rhai sy'n gweithio'n uniongyrchol gyda chynefinoedd megis ymgynghorwyr rheoli tir, ffermwyr, ciperiaid a rheolwyr bywyd gwyllt, gyda'r nod o wella'u gwybodaeth.

Bydd gwybodaeth yn cael ei hennill, a sgiliau ymarferol yn cael eu datblygu, ym meysydd cynnal cynefinoedd a'r rhywogaethau cysylltiedig â hwy yn y Deyrnas Unedig. Mae'n gosod y gweithgareddau hyn mewn cyd-destun hanesyddol ac yn archwilio effaith newid yn y tirwedd hwn ar fioamrywiaeth tir fferm. Yn gynwysedig yn yr uned hon mae'r dulliau a ddefnyddir i wella, creu ac adfer cynefinoedd a'r sgiliau angenrheidiol i arolygu a chanfod eu cyflwr a'u gwerth.

## Deilliannau dysgu

**Wedi cwblhau'r uned hon dylai'r dysgwr:**

1 Ddeall datblygiad tirwedd amaethyddol

2 Deall ecoleg cynefinoedd fferm a rhywogaethau bywyd gwyllt

3 Gallu cyflawni arolygon cynefinoedd fferm a rhywogaethau

4 Gallu rheoli cynefinoedd fferm yn ymarferol.

# Cynnwys yr uned

## 1 Deall datblygiad tirwedd amaethyddol

*Mathau o dirweddau amaethyddol:* tirweddau cynoesol, tirwedd canoloesol, tirwedd cyn-amgáu, tirwedd caeëdig, y Chwyldro Diwydiannol a'r tirwedd, tirwedd ôl-1940au, tirwedd amaethyddol modern; deddfwriaeth a pholisïau perthnasol cyfredol (sydd wedi llunio tirwedd fferm) ee Deddfau Cau Tiroedd, Deddfau Ŷd. Deddf Amaethyddiaeth 1947, Polisi Amaethyddol Cyffredin (CAP); effeithiau ecolegol (rhywogaethau, cynefinoedd)

*Digwyddiadau byd-eang a chenedlaethol:* effaith digwyddiadau byd-eang a chenedlaethol ar gynefinoedd fferm ee y Chwyldro Diwydiannol, Y Rhyfel Byd Cyntaf a'r Ail, y Deyrnas Unedig yn ymuno â'r UE; effeithiau ecolegol lle bônt yn berthnasol ee rhywogaethau, cynefinoedd

*Newidiadau mewn arferion ffermio:* effaith mecaneiddio ar dirwedd fferm ee gwaredu gwrychoedd, blociau cnydio, draenio gwlyptir, gwella cnydio, technegau amaethu, cemegion amaethyddol a gwrtaith, dyfrhau, ungnydau, cynhyrchu organig, llysiau graddfa cae, cnydio integredig, arallgyfeirio, gwyrddio'r tirwedd ffermio; effeithiau ecolegol ar rywogaethau a chynefinoedd.

## 2 Deall ecoleg cynefinoedd fferm a rhywogaethau bywyd gwyllt

*Cynefinoedd tir fferm nodweddiadol:* enghreifftiau perthnasol sydd i'w cael yn lleol ee gwrychoedd, waliau cerrig, pyllau a llynnoedd, afonydd a nentydd, coedwigoedd, coed, ymylon caeau, talarau cadwraeth, banciau chwilod, plotiau gylfinir y cerrig ac ehedydd, glaswelltir

*Ffawna nodweddiadol ffermdir:* adar ee petrisen, tylluan wen, ehedydd, bras yr ŷd, gylfinir y cerrig, melyn yr eithin, llinos, turtur; mamaliaid ee ysgyfarnog, llygoden y cynhaeaf, rhywogaethau ystlum, moch daear, rhywogaethau ceirw; ymlusgiaid ac amffibiaid ee neidr y glaswellt, y fadfall gribog fwyaf, neidr ddefaid; infertebratau, pryfetach ee chwilod, pryfed hofran, cacwn, ieir bach yr haf; gofynion rhywogaethau cynefinoedd tir fferm

*Cynllun gweithredu bioamrywiaeth fferm:* Cynlluniau Gweithredu Cynefinoedd (HAP) ee Cynllun Gweithredu Gwrychoedd Hynafol a/neu Rywogaeth gyfoethog, Cynllun Gweithredu Ymylon Caeau Grawn, Cynlluniau Gweithredu Rhywogaethau (SAP) ee petrisen, ysgyfarnog, pwysigrwydd ecolegol arallgyfeirio cynefinoedd ar dirwedd ffermio; proses cynllunio gweithredu rhywogaethau a chynefinoedd

## 3 Gallu cyflawni arolygon cynefinoedd fferm a rhywogaethau

*Dulliau arolygu:* dulliau arolygu cynefinoedd a rhywogaethau ee asesu ffermydd cyfan, archwiliad LEAF, cofnod amgylcheddol fferm, Cynlluniau Amgylcheddol Fferm (FEP o dan y Cynllun Stiwardiaeth Amgylcheddol), arolwg cynefin Cam 1, arolwg gwrychoedd, arolygon adar ffermdir, arolwg planhigion tir âr; rhywogaethau a geir yn gyffredin ar ffermydd (adar, mamaliaid, mathau o laswellt, llwyni, coed, blodau gwyllt), adnabod; gwerthuso nodweddion ecolegol ar ffermydd; asesu gwerth cadwraeth natur; asesu cyflwr cynefin; adnabod y potensial i wella bioamrywiaeth ar ffermydd


Rheoli Cynefinoedd Fferm – Rhifyn 1 –
Hydref 2019 © Pearson Education Limited 2019

## 4 Gallu rheoli cynefinoedd fferm yn ymarferol

*Rheoli cynefinoedd fferm yn ymarferol:* dulliau a ddefnyddir i greu a sefydlu cynefinoedd fferm ee plannu coetir fferm, plannu gwrychoedd, creu ac adfer gwlyptir a phyllau, creu ac adfer glaswelltir, gan gynnwys ymylon glaswellt, opsiynau a dulliau adfer tir âr, creu ymylon âr y tarfwyd arnynt, creu ymylon cnydau gorchudd i adar hela, cynnal a chadw a rheoli; cynlluniau arbennig ee Cynllun Stiwardiaeth Amgylcheddol, Banc Chwilod, plotio gylfinir y cerrig, creu a rheoli

*Sgiliau cysylltiedig â thasgau ymarferol:* ystyriaethau iechyd a diogelwch ar dir fferm; cyfarpar amddiffyn personol (PPE); asesiad risg; defnyddio gwirfoddolwyr ar ffermydd; offer a chyfarpar (defnyddio'n ddiogel, gwasanaethu, cynnal a chadw); grantiau a chymelliannau ar gyfer gwella bioamrywiaeth ffermdir ee Cynllun Stiwardiaeth Amgylcheddol, Cynlluniau Lefel Mynediad a Lefel Uwch; deddfwriaeth a chodau ymarfer cyfredol perthnasol i reoli cynefinoedd ar ffermydd ee Codau Ymarfer Amaethyddol Da Defra, Côd Aer, Côd Pridd a Chôd Dŵr, Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000, Deddf Lloegr Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006, Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981.

## Meini prawf asesu a graddio

Er mwyn llwyddo yn yr uned hon, mae angen i'r dystiolaeth a gaiff ei chyflwyno gan y dysgwyr i'w hasesu arddangos eu bod yn gallu bodloni'r holl ddeilliannau dysgu ar gyfer yr uned. Mae'r meini prawf asesu ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio lefel y cyflawniad sy'n angenrheidiol i lwyddo yn yr uned hon.

| Meini prawf asesu a graddio | | |
|---|---|---|
| **I gyflawni gradd llwyddo rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:** | **I gyflawni gradd teilyngdod rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:** | **I gyflawni gradd rhagoriaeth rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:** |
| Ll1 egluro datblygiad tirwedd amaethyddol yn y Deyrnas Unedig [YA, HR, CE] | T1 trafod effeithiau ecolegol newidiadau penodol i arfer fferm | Rh1 trafod, yn fanwl, gyfleoedd i gadw bioamrywiaeth ar y tirwedd amaethyddol modern |
| Ll2 egluro effeithiau deddfwriaeth neu bolisi ar ddatblygiad y dirwedd ffermio [YA, HR, CE] | | |
| Ll3 egluro pwysigrwydd ecolegol arallgyfeirio cynefinoedd ar dirwedd ffermio dethol [YA, HR, CE] | T2 egluro effeithiolrwydd cynllun bioamrywiaeth dethol ar dirwedd fferm penodol | |
| Ll4 gwerthuso effeithiolrwydd cynllun gweithredu bioamrywiaeth penodol [YA, HR, CE, MC] | | |
| Ll5 cyflawni arolwg ecolegol ar gynefin fferm penodol [YA, HR, CE] | T3 egluro nodweddion ecolegol a arolygwyd | Rh2 gwerthuso'r elfen cadwraeth natur a'r gwelliannau cynefin i gynefin fferm dethol gan argymell gwelliannau perthnasol |
| Ll6 adrodd am ganlyniadau arolwg cynefin a rhywogaethau fferm [YA, HR, CE] | | |
| Ll7 paratoi cyfarpar ac adnoddau ar gyfer rheoli cynefinoedd fferm yn ymarferol [YA, HR, CE] | T4 cyfiawnhau dulliau dethol a ddefnyddir i adfer, gwella neu greu cynefin fferm i fodloni amcanion penodol. | |
| Ll8 cyflawni technegau rheoli ymarferol yn ddiogel [YA, HR, CE]. | | |

| Meini prawf asesu a graddio | | |
|---|---|---|
| **I gyflawni gradd llwyddo rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:** | **I gyflawni gradd teilyngdod rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:** | **I gyflawni gradd rhagoriaeth rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:** |
| Ll9 argymell gwelliannau i reoli cynefinoedd fferm. [YA, HR, CE] | | |

**SPDM:** Mae'r crynodeb hwn, lle y bo'n berthnasol, yn cyfeirio yn y meini prawf llwyddo, yn y cromfachau sgwâr, at elfennau o'r sgiliau personol, dysgu a meddwl. Mae'n nodi'r cyfleoedd i ddysgwyr arddangos eu bod wedi defnyddio elfennau'r sgiliau y cyfeirir atynt yn effeithiol.

| **Allwedd** | |
|---|---|
| | YA - ymholwyr annibynnol |
| | MC - meddylwyr creadigol |
| | DM - dysgwyr myfyriol |
| | GT - gweithwyr tîm |
| | HR - hunan-reolwyr |
| | CE - cyfranogwyr effeithiol |

# Arweiniad hanfodol i diwtoriaid

## Cyflwyno

Mae’r tiwtoriaid sy'n cyflwyno'r uned hon yn cael cyfleoedd i ddefnyddio ystod mor eang o dechnegau â phosib. Byddai darlithoedd, trafodaethau, cyflwyniadau seminar, ymweliadau safle, gwaith ymarferol ar gynefinoedd fferm o dan oruchwyliaeth, ymchwil gan ddefnyddio'r rhyngrwyd a/neu adnoddau'r llyfrgell a defnyddio profiad personol a/neu o fewn y diwydiant yn addas. Dylai'r cyflwyno ysgogi, ysbrydoli, addysgu ac ennyn brwdfrydedd y dysgwyr.

Dylid monitro lleoliadau gwaith yn rheolaidd er mwyn sicrhau ansawdd y profiad dysgu. Byddai'n ddefnyddiol pe bai dysgwyr a goruchwylwyr yn cael eu gwneud yn ymwybodol o ofynion yr uned cyn cyflawni unrhyw weithgareddau cysylltiedig â gwaith, fel bod modd casglu tystiolaeth sy'n digwydd yn naturiol ar y pryd. Er enghraifft, gallai'r dysgwyr gael cyfle i ddefnyddio dulliau rheoli cynefinoedd fferm, a dylid eu hannog i holi am gofnodion arsylwi a/neu ddatganiadau tystion i'w darparu yn dystiolaeth o hyn. Rhoddir arweiniad ar sut i ddefnyddio cofnodion arsylwi a datganiadau tystion ar wefan Edexcel (www.edexcel.com).

Gallai siaradwyr gwadd arbenigol helpu i wneud y pwnc yn fwy perthnasol i ddysgwyr. Er enghraifft, gallai ffermwr sydd wedi cynnal prosiectau cadwraeth ar y fferm, ymgynghorydd cadwraeth fferm o’r Grŵp Ymgynghori ar Ffermio a Bywyd Gwyllt (FWAG), neu swyddog bioamrywiaeth lleol siarad am eu gwaith, y sefyllfaoedd maent yn eu hwynebu a'r dulliau maent yn eu defnyddio.

Pa ddulliau cyflwyno bynnag a ddefnyddir, mae'n hanfodol bod y tiwtoriaid yn pwysleisio pwysigrwydd rheoli amgylcheddol cadarn a'r angen am reoli’r adnodd gan ddefnyddio dulliau cyfreithlon.

Rhaid pwysleisio materion iechyd a diogelwch sy'n ymwneud â gweithio ar ffermydd ac o’u cwmpas a'u hatgyfnerthu'n rheolaidd, a rhaid cyflawni asesiadau risg cyn gweithgareddau ymarferol neu ymweliadau ag unrhyw safleoedd. Rhaid darparu cyfarpar amddiffyn personol (PPE) digonol a'u defnyddio ar ôl cynhyrchu asesiadau risg addas.

Dylai tiwtoriaid ystyried cyfuno'r cyflwyno, yr astudio preifat a'r asesu ar gyfer yr uned hon ag unedau ac offer asesu perthnasol eraill mae'r dysgwyr yn eu dilyn fel rhan o'u rhaglen astudio.

Mae deilliant dysgu 1 yn canolbwyntio ar ddealltwriaeth y dysgwyr o ddatblygiad y tirwedd amaethyddol. Caiff tirweddau gwahanol eu hastudio ynghyd â newidiadau i arferion ffermio, a sut mae hyn wedi effeithio ar amaethyddiaeth.

Oddi mewn i ddeilliant dysgu 2 bydd y dysgwyr yn edrych ar ecoleg cynefinoedd fferm a rhywogaethau bywyd gwyllt. Bydd nifer o gynefinoedd gwahanol yn derbyn sylw, ynghyd â'r ffawna sy'n byw ynddynt. Bydd cynlluniau gweithredu bioamrywiaeth hefyd yn derbyn sylw i weld sut gellir rheoli cynefinoedd fferm yn llwyddiannus.

Mae deilliant dysgu 3 yn canolbwyntio ar y dysgwyr yn cyflawni arolygon cynefinoedd a rhywogaethau fferm gan gynnwys nifer o ddulliau arolygu.

Ar gyfer deilliant dysgu 4, bydd y dysgwyr yn cyflawni technegau rheoli ffermydd. Mae hyn yn cwmpasu’r sgiliau perthynol sy'n digwydd ochr yn ochr â'r technegau hyn.

## Cynllun dysgu amlinellol

Mae'r cynllun dysgu amlinellol wedi cael ei gynnwys yn yr uned hon fel arweiniad a gellir ei ddefnyddio ar y cyd â'r rhaglen o aseiniadau a awgrymir.

Mae'r cynllun dysgu amlinellol yn rhoi **syniad o faint o waith dysgu fyddai'n angenrheidiol i ddysgwr arferol** gyflawni'r deilliannau dysgu. Mae'n **ddangosol ac yn un ffordd o gyflawni'r gwerth o ran credydau.**

Dylai'r amser dysgu drafod yr holl ddysgu (gan gynnwys asesu) sy'n berthnasol i'r deilliannau dysgu, ni waeth ble, pryd na sut y digwyddodd y dysgu.

| Pwnc ac aseiniadau/gweithgareddau/asesiadau a awgrymir |
|---|
| Cyflwyniad a throsolwg o'r uned. |
| **Aseiniad 1: Datblygiad y Tirwedd Amaethyddol** (Ll1, Ll2, T1, Rh1)<br>Y tiwtor yn cyflwyno'r aseiniad. |
| Gwers theori - cyflwyno'r gwahanol fathau o dirweddau a geir ar ffermydd i ddysgwyr. Trafod y ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â'r rhain. |
| Gwers theori - edrych ar ddigwyddiadau cenedlaethol a byd-eang sydd wedi cael effaith ar ffermio. |
| Sesiwn theori - Trafod effaith y newidiadau i arfer ffermio. |
| **Aseiniad 2: Ecoleg Cynefinoedd Fferm a Rhywogaethau Bywyd Gwyllt** (Ll3, Ll4, T2)<br>Y tiwtor yn cyflwyno'r aseiniad |
| Sesiwn theori - amlinellu a thrafod nodweddion cynefinoedd tir fferm |
| Sesiwn theori - amlinellu a thrafod nodweddion ffawna tir fferm. |
| Sesiwn theori - trafod cynlluniau gweithredu bioamrywiaeth ffermydd, eu swyddogaethau a'u pwysigrwydd. |
| **Aseiniad 3 (Ymarferol): Cyflawni arolygon Cynefinoedd Fferm a Rhywogaethau** (Ll5, Ll6, T3, Rh2)<br>Y tiwtor yn cyflwyno'r aseiniad. |
| Sesiwn theori - cyflwyno'r dulliau sydd ar gael ar gyfer arolygu, gan amlinellu pob un. |
| Sesiwn ymarferol – dylai'r dysgwyr gyflawni nifer o'r dulliau arolygu a drafodwyd yn eu sesiynau theori. |
| Sesiwn ymarferol - dylai'r dysgwyr gyflawni eu hasesiadau ymarferol. |
| **Aseiniad 4: Rheoli Cynefinoedd Fferm yn Ymarferol** (Ll7, Ll8, Ll9, T4)<br>Y tiwtor yn cyflwyno'r aseiniad |
| Sesiwn theori - amlinellu agweddau allweddol rheoli ffermydd yn ymarferol a'r sgiliau perthynol. |
| Sesiwn ymarferol – sesiwn i ddangos yn ymarferol sut i reoli cynefin fferm a'r sgiliau perthynol |
| Sesiwn ymarferol - dylai'r dysgwyr gyflawni eu hasesiad ymarferol |
| Adolygu'r uned. |

## Asesu

Ar gyfer Ll1, dylai'r dysgwyr esbonio sut mae tirweddau amaethyddol wedi datblygu o fewn y Deyrnas Unedig. Bydd angen i'r dysgwyr ystyried y tirweddau o'r cyfnod cynoesol hyd heddiw. Gallai'r dystiolaeth fod ar ffurf cyflwyniad neu adroddiad ysgrifenedig. Rhaid defnyddio delweddau i gefnogi'r testun.

Mae Ll2 yn gofyn bod y dysgwyr yn egluro effeithiau deddfwriaeth neu bolisi ar ddatblygiad y tirweddau ffermio. Rhaid trafod amrediad o ddeddfwriaeth berthnasol. Lle y bo'n bosibl, i sicrhau bod yr asesiad yn deg, dylai maint a chymhlethdod y tasgau fod yr un fath i bob dysgwr.

Ar gyfer Ll3, rhaid i'r dysgwyr egluro pwysigrwydd ecolegol arallgyfeirio cynefinoedd ar dirwedd fferm dethol. Gall y tiwtor ddewis y tirwedd fferm i'w astudio. Gellir cyflwyno hyn yn ysgrifenedig neu'n llafar.

Ar gyfer Ll4, rhaid i'r dysgwyr werthusp effeithiolrwydd cynllun bioamrywiaeth penodol. Dylai'r cynllun a ddewisir gael ei roi i'r dysgwyr gan y tiwtor. Dylid asesu hyn drwy lunio adroddiad ysgrifenedig.

Mae Ll5 yn gofyn bod y dysgwyr yn cyflawni arolwg ecolegol o gynefin fferm penodol. Dylai'r tiwtor roi'r cynefin i'r dysgwyr, ond y dysgwyr sydd i ddewis dull yr arolwg. Rhaid asesu hyn yn ymarferol.

Ar gyfer Ll6, rhaid i'r dysgwyr lunio adroddiad ar yr arolwg a gyflawnwyd ar gyfer Ll5. Dylid cynnwys tystiolaeth ffotograffig yn yr adroddiad.

Ar gyfer Ll7, mae angen i'r dysgwyr baratoi'r cyfarpar ac adnoddau angenrheidiol ar gyfer rheoli cynefinoedd fferm yn ymarferol. Gellir asesu hyn yn ymarferol drwy ychwanegu cwestiynau llafar.

Ar gyfer Ll8, mae gofyn bod y dysgwyr yn cyflawni technegau rheoli cynefinoedd fferm yn ymarferol. Eto, gellid defnyddio holi llafar.

Mae Ll9 yn edrych ar argymell gwelliannau i reoli cynefinoedd fferm. Gellir cyflwyno hyn mewn fformat o ddewis y tiwtor.

Ar gyfer T1, mae gofyn bod y dysgwyr yn trafod effeithiau ecolegol newidiadau i dirwedd amaethyddol penodol. Gallai'r tiwtoriaid ganolbwyntio ar newid penodol neu ei gyd-drafod ymlaen llaw gyda'r dysgwyr. Dylai'r effeithiau ecolegol gynnwys y rhai ar rywogaethau a chynefinoedd yn gyffredinol. Gallai'r dystiolaeth ar gyfer T1 fod ar ffurf cyflwyniad darluniadol gyda nodiadau (gan ddefnyddio meddalwedd priodol o bosib), poster wedi'i anodi neu brosiect, a gellid ei gysylltu ag Ll1 a Rh1.

Ar gyfer T2, rhaid i'r dysgwyr egluro effeithiolrwydd cynllun bioamrywiaeth penodol ar dirwedd fferm penodol. Dylai'r tiwtor nodi'r cynllun a'r tirwedd, neu gytuno arnynt trwy drafod gyda'r dysgwyr. Lle y bo'n bosibl, i sicrhau bod yr asesiad yn deg, dylai maint a chymhlethdod y tasgau fod yr un fath i bob dysgwr. Gallai'r dystiolaeth fod ar ffurf cyflwyniad neu brosiect sy'n cysylltu ag Ll2 a/neu Rh2.

Mae T3 yn gofyn bod y dysgwyr yn egluro nodweddion ecolegol cynefin dethol a arolygwyd. Dylai'r tiwtoriaid nodi'r cynefin, a gellid seilio hyn ar arolwg a gyflawnwyd ar gyfer Ll4. Lle y bo'n bosibl, i sicrhau bod yr asesiad yn deg, dylai maint a chymhlethdod y tasgau fod yr un fath i bob dysgwr. Dylai'r disgrifiadau gynnwys disgrifiad o'r safleoedd a arolygwyd a rhestr o'r rhywogaethau sy'n bresennol. Gallai'r dystiolaeth fod ar ffurf adroddiad ysgrifenedig.  Dylid ei gysylltu ag Ll3 a Rh3, a gellid ei gysylltu hefyd ag Ll2, T2 a Rh2.

Mae T4 yn gofyn bod y dysgwyr yn dethol ac yn cyfiawnhau’r dulliau a ddefnyddir i adfer, gwella neu greu cynefin fferm i fodloni amcanion penodol. Gallai'r dystiolaeth fod yn brosiect neu'n gyflwyniad darluniadol gyda nodiadau (gan ddefnyddio meddalwedd briodol o bosib).  Gallai hyn fod yn gysylltiedig ag Ll4.

Ar gyfer Rh1, rhaid i'r dysgwyr drafod y cyfleoedd i gadw rhywogaethau bywyd gwyllt fferm penodol ar y tirwedd amaethyddol modern. Mae'n debygol y byddai'r rhywogaeth yn famal neu'n aderyn (er enghraifft petrisen, ysgyfarnog neu rywogaeth arall a fu’n destun llawer o ymchwil), ond mae'n bosib y

bydd gan ddysgwyr ddiddordebau penodol yr hoffent eu dilyn. Mae'r pwyslais yma ar adnabod yr amrediad o gynlluniau amaeth-amgylcheddol sydd ar gael i gynnig cyfleoedd gwych ar gyfer ailsefydlu bywyd gwyllt ar ffermydd. Gallai'r dystiolaeth ar gyfer hyn fod yn yr un fformat ag ar gyfer T1 a gellid ei chysylltu ag Ll1, T1 a Rh2.

Mae T2 yn gofyn bod y dysgwyr yn gwerthuso diddoreb cadwraeth natur cynefin dethol a arolygwyd. Gellid defnyddio’r un cynefin ag ar gyfer Ll3. Dylai'r dystiolaeth gynnwys gwybodaeth am asesu cyflwr y cynefin, a gellid ei chysylltu ag Ll3 a T3.

### Rhaglen aseiniadau a awgrymir

Mae'r tabl sy'n dilyn yn dangos rhaglen o aseiniadau a awgrymir sy'n cwmpasu'r meini prawf llwyddo, teilyngdod a rhagoriaeth yn y grid graddio. Arweiniad yw hwn ac awgrymir bod canolfannau naill ai'n ysgrifennu eu haseiniadau eu hunain neu'n addasu unrhyw aseiniadau Edexcel i gyd-fynd ag anghenion ac adnoddau lleol.

| Meini prawf sy'n cael eu cwmpasu | Teitl yr aseiniad | Senario | Dull asesu |
|---|---|---|---|
| Ll1, Ll2, T1, Rh1 | Datblygu'r Tirwedd Amaethyddol | Mae angen cynhyrchu portffolio ar ddatblygiad tirweddau amaethyddol ynghyd â'r ddeddfwriaeth sy'n cyd-fynd â hynny. | Portffolio o weithgareddau. |
| Ll3, Ll4, T2, T3, T4, Rh2 | Ecoleg Cynefinoedd Fferm a Rhywogaethau Bywyd Gwyllt | Gofynnwyd i chi lunio cyflwyniad ar gyfer cymuned leol ar ecoleg tirwedd penodol. Mae angen trafod pwysigrwydd cynllun bioamrywiaeth penodol ynghyd â pha mor effeithiol ydyw. | Aseiniad ysgrifenedig neu holi llafar. |
| Ll5, Ll6, T3, Rh2 | Cyflawni Arolygon Cynefinoedd Fferm a Rhywogaethau | Rydych yn gweithio i gwmni amaethyddol a gofynnwyd i chi gyflawni arolwg ar dir a ddewiswyd i'w ddatblygu. Mae angen i chi lunio adroddiad yn nodi a ddylai tir gael ei ddefnyddio i'w ddatblygu neu a yw'n anaddas oherwydd yr anifeiliaid sy'n byw arno. | Sesiwn ymarferol ac adroddiad ysgrifenedig. |

| Meini prawf sy'n cael eu cwmpasu | Teitl yr aseiniad | Senario | Dull asesu |
|---|---|---|---|
| Ll7, Ll8, Ll9, T4 | Rheoli Cynefinoedd Fferm Ymarferol | Gofynnwyd i chi arddangos technegau rheoli cynefinoedd fferm ar gyfer tirwedd o ddewis eich tiwtor, i'r myfyrwyr ar y cwrs cysylltiedig. Mae angen i'r cyfarpar gael ei baratoi a chyflawni'r technegau angenrheidiol. Bydd angen hefyd i chi drafod gyda'r tiwtor sut gellir gwella'r technegau rheoli hyn. | Sesiwn ymarferol/theori |

## Cysylltiadau â Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol, unedau BTEC eraill, cymwysterau BTEC eraill ac unedau a chymwysterau perthnasol eraill

Mae'r uned hon yn ffurfio rhan o gyfres sector tir BTEC. Mae gan yr uned hon gysylltiadau penodol â:

| Lefel 2 |
|---|
| Bod yn rhan o'r gwaith o gynnal a chadw ystâd |
| Cadwraeth a Gwella Cynefinoedd Prydain |
| **Lefel 3** |
| Elfen CU88.1 Nodi'r angen am waith rheoli cynefinoedd a'i gynllunio<br>Elfen CU88.3 Monitro a gwerthuso effeithiolrwydd gwaith rheoli cynefinoedd |
| Cyflawni Sgiliau Ystâd |

## Adnoddau hanfodol

Bydd angen i'r dysgwyr gael mynediad i safleoedd lle gall arolygon a rheoli neu greu cynefinoedd ymarferol ddigwydd. Bydd angen hefyd i'r offer a'r cyfarpar angenrheidiol ar gyfer cyflawni'r tasgau ymarferol hyn fod ar gael.

Dylai'r tiwtoriaid sy'n cyflwyno'r uned hon fod yn gymwys ac yn brofiadol wrth reoli cynefinoedd fferm. Yn ddelfrydol, dylent feddu ar brofiad diweddar yn y diwydiant neu ddangos tystiolaeth o gyswllt rheolaidd â'r diwydiant a/neu ddiweddaru technegol.

## Ymgysylltu â chyflogwyr a chyd-destunau galwedigaethol

Lle defnyddir lleoliadau profiad gwaith gall y cyflogwr asesu galluoedd y dysgwyr. Mae angen trafod hyn gyda'r tiwtor a rhaid darparu tystiolaeth.

 © Pearson Education Limited 2019

## Darllen dangosol i ddysgwyr

### Gwerslyfrau


Andrews J a Rebane M – *Farming and Wildlife: A Practical Management Handbook* (A&C Black, 1994) ISBN 0903138670

Hoskins W – *Making of the English Landscape* (Hodder and Stoughton, 2005) ISBN 0340770201

Institute of Terrestrial Ecology – *Managing Set-aside Land for Wildlife* (The Stationery Office Books, 1994) ISBN 0117015687

MacLean M – *Hedges, 2il Argraffiad* (The Crowood Press, 2003) ISBN 085236542X

Newby H – *Green and Pleasant Land?: Social Change in Rural England, 2il Argraffiad* (Avebury, 1985) ISBN 0704505053

Pain D a Pienkowski M – *Farming and Birds in Europe: Common Agricultural Policy and Its Implications for Bird Conservation* (Poyser, 2002) ISBN 0125442807

Potts G – *The Partridge: Pesticides, Predation and Conservation* (Blackwell Science, 1987) ISBN 0003832988

Rackham O – *The Illustrated History of the Countryside* (Orion Publishing Co, 2003) ISBN 0297843354


### Cyfnodolion

*British Wildlife*

### Cyhoeddiadau defnyddiol eraill

*Codau Ymarfer Amaethyddol Da Defra (1998) Dŵr, Pridd ac Aer*

*Cylchgronau Rhanarthol FWAG*

### Gwefannau

| | |
|---|---|
| www.adas.co.uk | ADAS Insight and Solutions |
| www.defra.gov.uk | Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig |
| www.environmentsensitivefarming.co.uk | Environment Sensitive Farming |
| www.farmwildlife.info | Gwybodaeth Bywyd Gwyllt i'r Gymuned Ffermio |
| www.fwag.org.uk | Grŵp Ymgynghori Ffermio a Bywyd Gwyllt |
| www.gct.org.uk | Ymddiriedolaeth Cadwraeth Adar Hela |
| www.lantra.co.uk | Cyngor Sgiliau Sector ar gyfer y Sector Amgylcheddol a Thir |
| www.rspca.org.uk | Y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar |
| www.ukagriculture.com | UK Agriculture |

## Cyflwyno sgiliau personol, dysgu a meddwl (SPDM)

Mae'r tabl hwn yn nodi'r cyfleoedd SPDM a gafodd eu cynnwys ym meini prawf asesu'r uned hon:

| Sgil | Pan fydd y dysgwyr yn... |
|---|---|
| **Ymholwyr annibynnol** | gwerthuso'r cyfarpar angenrheidiol i gynnal a chadw fferm |
| **Meddylwyr creadigol** | cynhyrchu, gyda chefnogaeth tiwtor, adroddiadau a chyflwyniadau |
| **Dysgwyr myfyriol** | gwerthuso cyfarpar ar gyfer cynnal a chadw fferm<br>gwerthuso dulliau amgen o arolygu cyfarpar |
| **Gweithwyr tîm** | ymarfer technegau arolygu a rheoli fferm |
| **Hunan-reolwyr** | cynhyrchu, gyda chefnogaeth tiwtor, adroddiadau a chyflwyniadau |
| **Cyfranogwyr effeithiol** | cymryd rhan mewn sesiynau ymarferol a defnyddio'r sgiliau a ddatblygwyd |

 © Pearson Education Limited 2019

## Sgiliau swyddogaethol – Lefel 2

| Sgil | Pan fydd y dysgwyr yn... |
|---|---|
| **TGCh - Defnyddio systemau TGCh** | |
| Dethol, rhyngweithio â systemau TGCh a'u defnyddio'n annibynnol ar gyfer tasg gymhleth i fodloni anghenion amrywiol | ymchwilio ar y rhyngrwyd am wybodaeth ar reoli cynefinoedd fferm<br>ymchwilio ar y rhyngrwyd am sut i ddefnyddio darnau perthnasol o gyfarpar |
| Defnyddio TGCh i gynllunio gwaith yn effeithiol a gwerthuso effeithiolrwydd y system TGCh a ddefnyddiwyd | |
| Rheoli storio gwybodaeth er mwyn galluogi adalw effeithlon | |
| Dilyn arferion diogelwch a diogeledd a deall yr angen amdanynt | |
| Datrys problemau | |
| **TGCh – Canfod a dethol gwybodaeth** | |
| Dethol a defnyddio amrywiaeth o ffynonellau gwybodaeth yn annibynnol ar gyfer tasg gymhleth | defnyddio'r rhyngrwyd, gwerslyfrau a nodiadau dosbarth i gwblhau aseiniadau'r uned |
| Cael mynediad i wybodaeth seiliedig ar TGCh, chwilio amdani, ei dewis a'i defnyddio- a gwerthuso ei haddasrwydd at y diben | |
| **TGCh – Datblygu, cyflwyno a chyfathrebu gwybodaeth** | |
| Mewnbynnu, datblygu a fformadu gwybodaeth yn annibynnol i gyd-fynd â'i hystyr a'i diben gan gynnwys:<br>• testun a thablau<br>• delweddau<br>• rhifau<br>• cofnodion | llunio adroddiad a gynhyrchir ar y cyfrifiadur |
| Dwyn ynghyd wybodaeth i gyd-fynd â'r cynnwys a'r diben | llunio adroddiad<br>llunio cyflwyniad |
| Cyflwyno gwybodaeth mewn ffyrdd sy'n cyd-fynd â'r diben a'r gynulleidfa | |
| Gwerthuso'r detholiad a'r defnydd o offer TGCh a'r cyfleusterau a ddefnyddiwyd i gyflwyno gwybodaeth | |

| Sgil | Pan fydd y dysgwyr yn… |
|---|---|
| Dethol a defnyddio TGCh i gyfathrebu a chyfnewid gwybodaeth yn ddiogel, yn gyfrifol ac yn effeithiol gan gynnwys storio negeseuon a rhestrau cyswllt | |
| **Mathemateg** | |
| Deall problemau arferol ac anarferol mewn amrediad eang o gyd-destunau a sefyllfaoedd cyfarwydd ac anghyfarwydd | |
| Nodi'r sefyllfa neu'r broblem a'r dulliau mathemategol angenrheidiol i'w datrys | |
| Dethol ystod o sgiliau a'u cymhwyso i ganfod datrysiadau | |
| Defnyddio gweithdrefnau gwirio priodol a gwerthuso eu heffeithiolrwydd ar bob cam | sicrhau bod y cyfarpar o'r maint cywir |
| Dehongli a chyfathrebu datrysiadau i broblemau ymarferol mewn cyd-destunau a sefyllfaoedd cyfarwydd ac anghyfarwydd | |
| Llunio casgliadau a darparu cyfiawnhad mathemategol | |
| **Iaith** | |
| Siarad a gwrando - gwneud amrywiaeth o gyfraniadau i drafodaethau a gwneud cyflwyniadau effeithiol mewn ystod eang o gyd-destunau | cymryd rhan mewn cyflwyniadau a thrafodaethau dosbarth am reoli cynefinoedd fferm |
| Darllen - cymharu, dethol, darllen a deall testunau a'u defnyddio i gywain gwybodaeth, syniadau, dadleuon a safbwyntiau | |
| Ysgrifennu - ysgrifennu dogfennau, gan gynnwys darnau ysgrifenedig estynedig, cyfathrebu gwybodaeth, syniadau a safbwyntiau, yn effeithiol ac yn berswadiol | |